Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

# Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

# Penodi Comisiynwyr

# Dyddiad cau: 17 Ionawr 2020

The Commissioner for Public Appointments

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| **Gwneud Cais** | **3** |
| **Atodiad A: Rôl Comisiynydd** | **5** |
| **Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru** | **9** |
| **Atodiad C: Y broses ddethol** | **10** |

## Gwneud cais

Diolch am ddangos diddordeb mewn cael eich penodi'n un o Gomisiynwyr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae dwy sydd wag, ac mae angen maes arbenigedd penodol (a ddisgrifir ym manyleb y person) ar gyfer bob un ohonynt. Bydd pob Comisiynydd yn chwarae rhan flaenllaw drwy gynnig her adeiladol ar draws holl fusnes y Comisiwn Brenhinol er mwyn sicrhau y creffir ar bob agwedd ar ei strategaeth, ei gyfeiriad a'i ddulliau cyflenwi er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r Atodiadau yn rhoi manylion am rôl Comisiynydd a manyleb y person ar ei gyfer, am rôl a chyfrifoldebau'r Comisiwn Brenhinol ac am y broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-458397f863d7/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag 'Comisiynwyr – Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru' a chliciwch ar 'Gwneud Cais' yn y gornel chwith isaf. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill a wnewch, drwy eich cyfrif cofrestredig.

Ar ôl ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

**Datganiad Personol**
Y datganiad personol yw eich cyfle i 1) amlinellu eich diddordeb yn y rôl, 2) dangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a restrir ym manyleb y person a 3) amlinellu sut y gallech gyfrannu at waith y Comisiwn Brenhinol. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf (a rennir yn 'arbenigedd hanfodol' a 'sgiliau personol hanfodol'), ac sy'n disgrifio'ch cyfraniad chi at gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer cyffredin.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai'ch cais gael ei wrthod pe baech yn mynd dros y terfyn hwnnw.

**CV**
Dylech sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol a fu gennych yn y gorffennol neu sydd gennych ar hyn o bryd.

**Amserlen fras**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 17 Ionawr 2020 |
| Llunio rhestr fer: | Yr wythnos yn dechrau 3 Chwefror 2020 |
| Cyfweliadau: | 25 a 27 Mawrth 2020 |

**Datganiad Amrywiaeth**
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru yn annog amrywiaeth eang o unigolion i wneud cais i fod yn aelodau o gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

**Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl**
Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac mae'n croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn gyfle ichi nodi unrhyw anghenion neu offer penodol y gallai fod eu hangen arnoch os cewch eich gwahodd i gyfweliad.

**Manylion Cyswllt:**
Am ragor o wybodaeth am rôl Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a rôl y Comisiynwyr, cysylltwch â:

Christopher Catling, yr Ysgrifennydd (Prif Swyddog Gweithredol)
Ffôn: 01970 621 200
E-bost: christopher.catling@rcahmw.gov.uk

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, anfonwch e-bost at: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

**Atodiad A**

# Penodi Comisiynwyr i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

## Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

### Rôl a chyfrifoldebau

Bwrdd y Comisiynwyr sy'n arwain ac yn llywodraethu'r sefydliad, ac mae hefyd yn craffu ar bob un o weithgareddau'r Comisiwn Brenhinol, yn ogystal â herio'r gweithgareddau hynny mewn ffordd adeiladol. Y Bwrdd hefyd sy'n llywio dyfodol y sefydliad. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn awyddus i benodi unigolion sy'n ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth amgylchedd hanesyddol gorau posibl er budd holl bobl Cymru.

### Fel Comisiynydd, byddwch yn:

- Adolygu Cynllun Gweithredol y Sefydliad, gan ystyried gwaith sy'n mynd rhagddo, cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru yn y Llythyr Cylch Gwaith a mentrau a sefydlir gan y Sefydliad ei hun;
- Sicrhau bod y Sefydliad yn cael ei lywodraethu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion y ddogfen Fframwaith, a bod gweithgareddau'r Sefydliad o fewn cwmpas y Warant Frenhinol;
- Sicrhau bod perfformiad y Sefydliad yn cyrraedd yr hyn sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol am weithgareddau'r Sefydliad;
- Cynnig arweiniad a chyfarwyddyd i staff arbenigol y Sefydliad, a monitro'u gwaith, mewn pwyllgorau neu'n unigol;
- Ymwneud yn uniongyrchol â'r hyn sy'n cael ei gynnwys yng nghyhoeddiadau arbenigol y Sefydliad, a chymryd cyfrifoldeb amdanynt;
- Cynrychioli'r Comisiwn Brenhinol a'i fuddiannau pan fydd galw arnoch i wneud hynny.

### Disgwylir i'r Comisiynwyr hefyd:

- Feddu ar ddealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol a'i arwyddocâd;
- Bod â gweledigaeth glir am sut y gall y Comisiwn Brenhinol barhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu'r gwasanaeth amgylchedd hanesyddol gorau posibl i Gymru;
- Arwain Bwrdd Comisiynwyr sy'n perfformio ar lefel uchel ac sy'n rheoli perfformiad mewn ffordd gadarn, sy'n dangos yr ymddygiadau a'r gwerthoedd craidd y mae eu hangen mewn tîm, sy'n herio ac yn cefnogi ei gilydd mewn ffordd adeiladol, ac sy'n mynd ati'n barhaus i fesur llwyddiannau'r tîm yn unol â nodau'r Comisiwn;
- Arddel a chynnal saith egwyddor bywyd cyhoeddus ("egwyddorion Nolan").

**Manyleb y Person**
Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol (a rennir yn 'arbenigedd hanfodol' ac yn 'sgiliau personol hanfodol') y rôl.

**Meini Prawf Hanfodol**
Mae'r Comisiwn Brenhinol wedi ymrwymo i atgyfnerthu ei fwrdd ac i gyflwyno amrywiaeth o ran yr aelodau, felly rydym yn chwilio am Gomisiynwyr newydd a fydd â chryn arbenigedd mewn un neu fwy o'r meysydd a ganlyn:

1. **Hanesydd pensaernïol:** Mae cynulleidfaoedd crefyddol yng Nghymru yn ei chael yn anodd cynnal eu hadeiladau hanesyddol; dim ond rhyw 30 y cant o gapeli Anghydffurfwyr sy'n cael eu defnyddio erbyn hyn fel man addoli gweithredol a bydd llawer mwy o leoedd addoli yn peidio â chael eu defnyddio yn ystod y ddau ddegawd nesaf. Bydd cau ar y raddfa honno yn arwain at ganlyniadau difrifol i dreftadaeth Cymru. Yn arbennig, capeli y cymunedau o anghydffurfwyr sy'n fwyaf tebygol o gau, ynghyd â mannau addoli pobl o ffydd arall heb fod yn Gristion, fel synagogau; mae eu trosi ar gyfer defnydd arall fel arfer yn cynnwys colli organau, pulpudau, orielau a seddi, gwydr lliw, cofebion a dodrefn eraill, llyfrau ac archifau.

   Mae'r Comisiwn Brenhinol yn ymateb i'r her hon mewn nifer o ffyrdd. Rydym eisoes wedi creu cronfa ddata o ryw 6,453 o gapeli ac wedi cofnodi'r rhai mwyaf arwyddocaol. Rydym ar fin cychwyn arolwg o leoedd addoli'r 20fed ganrif yng Nghymru. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn aelod gweithredol o amryw o gyrff sy'n helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i ddefnydd cymunedol arall ar gyfer eu lleoedd addoli ac, ynghyd â Croeso Cymru, rydym yn helpu i ddatblygu potensial twristiaeth ffydd ac ysbrydol fel modd o ennill incwm i leoedd addoli yng Nghymru. Yn anad dim, fel corff cenedlaethol cofnodion pensaernïol, rydym wrthi'n cofnodi ar frys y lleoedd addoli hynny sydd mewn perygl mwyaf o gau, gan sicrhau eu bod nhw, eu gosodiadau, ffitiadau a hanesion, ar gof a chadw.

   I gefnogi'r gwaith hwn, rydym yn dymuno recriwtio hanesydd pensaernïol neu archaeolegydd i'r Comisiwn Brenhinol er mwyn ein helpu i flaenoriaethu ein gwaith a chynghori'r Comisiwn ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni ein hamcanion yn ogystal â gweithredu fel eiriolwr ar gyfer yr elfennau allweddol hyn o dirwedd hanesyddol Cymru.

2. **Polisi cyhoeddus:** Yn gyfnewid am gymorth grant, mae'n ofynnol i'r Comisiwn Brenhinol alinio'i waith a'i brif ganlyniadau â pholisïau economaidd a chymdeithasol Llywodraeth Cymru. Caiff y rhain eu nodi mewn nifer o ddogfennau strategol lefel uchel a darpariaethau statudol, gan gynnwys Ffyniant i Bawb, cynllun Llywodraeth Cymru i ddatblygu cymunedau cydnerth, cynyddu cyfranogiad a chynhwysiant mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth, ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael a newid yn yr hinsawdd, a hyrwyddo iechyd a lles da. At ei gilydd, mae'r polisïau hyn yn cyflwyno gweledigaeth gyffrous ar gyfer cynrychioli a dathlu amrywiaeth cymunedau Cymru, a'r cyfan o fewn fframwaith sy'n gyson ag egwyddorion cynaliadwyedd a chefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial sydd wedi'u hymwreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

   Er mwyn ein helpu i alinio ein gweithgareddau ag amcanion perthnasol Llywodraeth Cymru, ac i sicrhau y cawn ein hystyried yn sefydliad blaengar sydd

â'r gwerthoedd hyn yn greiddiol inni, rydym yn dymuno recriwtio Comisiynydd â phrofiad o bolisi cyhoeddus a threftadaeth. Byddwch yn chwarae rhan hollbwysig mewn cynghori'r Comisiwn ar weithgareddau priodol a'r mathau o fenter y gall corff treftadaeth ymgymryd â nhw i gefnogi nodau cymdeithasol, economaidd a lles. Byddwch hefyd yn ein helpu i feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid gwleidyddol a phenderfynwyr ac yn gweithredu fel hyrwyddwr cyflawniadau'r Comisiwn, er mwyn i bobl ein gwerthfawrogi a'n parchu fel sefydliad sy'n arwain ym maes polisïau treftadaeth blaengar.

**Sgiliau Personol Hanfodol**
Bydd angen i ymgeiswyr hefyd ddangos bod ganddynt:

- Sgiliau deallusol a dadansoddol cadarn;
- Y gallu i gynrychioli'r Comisiwn Brenhinol yn gyhoeddus a chyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid allweddol;
- Dealltwriaeth o'r cymunedau amrywiol yng Nghymru ac ymrwymiad i rannu'r manteision sy'n gysylltiedig ag ymwneud â threftadaeth Cymru;
- Y gallu i gydweithio'n effeithiol, ac i weithio gydag eraill, a thrwyddynt, i gyflawni amcanion;
- Y gallu i gyflwyno syniadau newydd mewn trafodaethau am faterion strategol ac ymarferol.

**Y Gymraeg**
Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y ddwy swydd. Hoffai'r Comisiwn gryfhau'r sefyllfa o ran sgiliau Cymraeg ar y Bwrdd. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr ddangos bod ganddynt ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog, gan werthfawrogi polisïau a strategaethau iaith y Comisiwn Brenhinol.

**Ffeithiau allweddol am y swydd**

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd yn Aberystwyth, ond mae'n bosibl y byddant yn cael eu cynnal mewn rhannau eraill o Gymru o bryd i'w gilydd. |
| Ymrwymiad Amser: | Mae'r ymrwymiad amser swyddogol yn rhyw 10 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd, ond gellir treulio mwy o amser na hynny ar waith paratoi.<br><br>Bydd disgwyl i'r comisiynwyr fod yn bresennol mewn dau gyfarfod y flwyddyn, fel arfer ym mis Hydref a mis Ebrill Mae pob cyfarfod yn para naill ai deuddydd neu dridiau, a chynhelir cyfarfodydd achlysurol hefyd os bydd y Comisiynwyr yn cytuno y bydd eu hangen. Yn achos y rheini a fydd yn aelodau craidd o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd telegynadledda ychwanegol ym mis Ionawr a mis Gorffennaf.<br><br>Bydd angen i'r Comisiynwyr fod yn barod i ddarllen deunydd cefndir, i gynrychioli'r Comisiwn Brenhinol rhwng cyfarfodydd, i fod yn aelod o baneli cyfweld ac yn aelod o |

| | |
|---|---|
| | gyrff adolygu strategol o bryd i'w gilydd ac, o bosibl, asesu testunau sydd i'w cyhoeddi. |
| Cyfnod y swydd: | Penodir am gyfnod o 5 mlynedd; gellir ailbenodi am gyfnod pellach o 5 mlynedd. |
| Cydnabyddiaeth ariannol: | £198 y diwrnod am fynd i gyfarfodydd, ynghyd â chostau teithio a threuliau rhesymol eraill sydd o fewn y terfynau cydnabyddedig. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau sy'n gysylltiedig â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol tra byddwch yn gweithio ar ran y Comisiwn Brenhinol. |

**Pwy sy'n gymwys i wneud cais?**
Dylai ymgeiswyr nodi bod swydd fel un o Gomisiynwyr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn anghymwyso'r deiliad rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made

**Gwrthdaro Buddiannau**
Gofynnir ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel un o Gomisiynwyr y Comisiwn Brenhinol, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl yn y Comisiwn Brenhinol.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd gofyn ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**
Bydd disgwyl ichi arddel safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus; mae'r ddogfen honno i'w gweld yma:

http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

**Atodiad B**

## Rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn wasanaeth archifo ac archwilio cenedlaethol annibynnol unigryw i Gymru, ac mae'n ymroi i gofnodi a dehongli'n hamgylchedd hanesyddol cyfoethog mewn ffordd awdurdodol. Mae'n gweithio o adeilad Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ac yn gweithredu hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac mae ganddo staff medrus sy'n rhoi cyngor proffesiynol a gwybodaeth arbenigol i'r cyhoedd. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i Gymru, gan feithrin gwell gofal a dealltwriaeth o'n hadeiladau a'n tirweddau hanesyddol, a meithrin a chydnabod y potensial sydd gan dreftadaeth i helpu i wella bywydau pobl.

**Cefndir**
Mae hanes hir gan y Comisiwn Brenhinol yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu ym 1908 drwy Warant Frenhinol, a ddiwygiwyd yn 2000. Mae'r Warant yn cyfarwyddo'r Comisiwn Brenhinol i arolygu a chofnodi henebion ac adeiladwaith sy'n dyddio o'r cyfnod cynharaf (gan gynnwys yr henebion a'r adeiladwaith yng ngwely'r môr, arno neu oddi tano) drwy gasglu, cynnal a churadu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef y cofnod cenedlaethol sylfaenol o'r amgylchedd archaeolegol a hanesyddol.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a nodir ei rôl a'i gyfrifoldebau yng Ngwarant Frenhinol 2000. Nodir ein trefniadau llywodraethu a'n trefniadau atebolrwydd mewn Dogfen Fframwaith. Caiff blaenoriaethau gweithredol a thargedau perfformiad y Comisiwn Brenhinol eu llywio gan Lythyr Cylch Gwaith blynyddol oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon. Mae'r llythyr hwnnw'n nodi blaenoriaethau strategol, polisïau penodol a chynlluniau gweithredu, a pholisïau a gweithdrefnau ehangach Llywodraeth Cymru.

**Rôl y Bwrdd**
Mae Bwrdd y Comisiynwyr yn arwain ac yn llywodraethu'r sefydliad, ac yn craffu ar holl weithgareddau'r Comisiwn, yn ogystal â herio'r gweithgareddau hynny mewn ffordd adeiladol. Y Bwrdd hefyd sy'n llywio dyfodol y sefydliad.

Mae Bwrdd y Comisiynwyr yn cynnwys Cadeirydd a hyd at ddeg Comisiynydd arall. Mae naw Comisiynydd ar hyn o bryd, gan gynnwys y Cadeirydd, Yr Athro Nancy Edwards. Y Comisiynwyr eraill yw: Caroline Crewe-Read, Dr Louise Emanuel, Neil Beagrie, Chris Brayne, Dr Hayley Roberts a Jonathan Vining – a Catherine Hardman (Is-gadeirydd) a Thomas Lloyd, sydd ill dau yn tynnu at derfyn eu cyfnod yn y swydd.

**Atodiad C**

## Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad gofynnol. Cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Hyd yma, ni chadarnhawyd pwy fydd ar y panel dethol, ond bydd yr ymgeiswyr a fydd yn cyrraedd y rhestr fer yn cael gwybod eu henwau a'u swyddi ar y bwrdd cyn y cyfweliad.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Chwefror 2020 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ar 25 / 27 Mawrth 2020.

Yr unig ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad fydd yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos eu bod yn bodloni orau y meini prawf ym manyleb y person. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, byddwn yn ceisio ad-drefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Byddwch yn cael neges e-bost drwy system Penodi i roi gwybod ichi a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yn swyddfeydd y Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Penodir y Cadeirydd gan y Frenhines o dan y Warant Frenhinol yn unol â chyngor Prif Weinidog y DU, sy'n gweithredu drwy ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Mae Adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno sylwadau priodol am unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru. Felly, caiff argymhellion am benodiadau i'r Comisiwn Brenhinol eu gwneud i Brif Weinidog y DU gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, sef y Gweinidog perthnasol o blith Gweinidogion Cymru, sy'n cael ei gynghori ar y mater hwn gan swyddogion.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud yr argymhelliad terfynol. Mae'n bosibl y bydd y

Gweinidog yn dewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr a fydd wedi cael cyfweliad am hynt y broses hon.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n un o Gomisiynwyr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ac yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus ar ôl cael cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau a bod rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O'r herwydd, bydd y llythyr yn rhoi manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os byddwch yn dymuno gwneud hynny.

**Ymholiadau a chwynion**
Os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich cais neu os ydych am wneud cwyn, anfonwch e-bost at: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.